# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y_Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2020

Amser y cyfarfod: 11.00

# 282(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu:

- Y cworwm i unrhyw bleidlais fod yn ddilys fydd pedwar Aelod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.10; ac
- Yn unol â Rheol Sefydlog 34.11, caiff pob grŵp gwleidyddol (neu grwpiad a ffurfir at ddibenion Rheol Sefydlog 11) enwebu un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp neu yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, aelodau'r grŵp hwnnw yn ogystal ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol)

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 6 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(20 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 7 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau a gafwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dilyn y cyhoeddiad am golli swyddi yn Airbus?

## 8 Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Yr Argyfwng Hinsawdd

(45 munud)

## 9 Dadl: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020

(15 munud)

**NDM7340** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd yn cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.10, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2020.

Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mai 2020, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.2.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Dadl y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau ar effeithiau COVID-19 ar Economi, Seilwaith a Sgiliau Cymru

(60 munud)

**NDM7341** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiadau Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Effaith COVID-19: Crynodeb o'r canfyddiadau cychwynnol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2020 ac Effaith COVID-19: Sgiliau - canfyddiadau cynnar a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2020.

**Dogfennau Ategol** - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgilia

## 11 Dadl Plaid Cymru – Cwricwlwm Newydd Arfaethedig

(60 munud)

**NDM7342** **Sian Gwenllian (Arfon)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn datgan cefnogaeth gyffredinol i bwrpas y cwricwlwm newydd arfaethedig, sef galluogi dysgwyr i ddatblygu fel:

a) dysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau;

b) cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;

c) dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd; ac

d) unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2. Yn cytuno bod cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn cynnig cyfle hanesyddol i unioni sawl anghyfiawnder strwythurol yng Nghymru.

3. Yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod cyfrifoldeb ar lywodraeth gwlad i gymryd camau penodol i sicrhau bod y cwricwlwm yn gwarantu gwaelodlin o ddarpariaeth i bobl ifanc ar draws Cymru fel mater o hawliau dynol sylfaenol ac yn croesawu y bydd rhai elfennau o'r cwricwlwm newydd yn orfodol o ganlyniad.

4. Yn cytuno y dylai'r elfennau gorfodol o'r cwricwlwm gynnwys:

a) hanes pobl ddu a phobl o liw; a

b) hanes Cymru.

5. Yn cytuno y dylai'r cwricwlwm newydd gefnogi pob dysgwr i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond nad oes angen i'r Saesneg gael ei chynnwys yn y rhestr o elfennau gorfodol er mwyn cyflawni'r nod hwn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn cytuno y gall y cwricwlwm newydd, os yw'n llwyddo yn ei amcanion, helpu i ddatblygu dinasyddion hyderus, sy'n gyd-gyfrifol, a fydd yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael ag anghyfiawnder o bob ffynhonnell.

**Gwelliant 2 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu pwyntiau 4 a 5 a rhoi yn eu lle:

Yn cydnabod bod canllawiau'r Cwricwlwm Newydd i Gymru o ran y Dyniaethau yn "hyrwyddo dealltwriaeth o'r amrywiaeth ethnig a diwylliannol yng Nghymru" ac yn "galluogi dysgwyr i ymroi i weithredu cymdeithasol fel dinasyddion cyfranogol, gofalgar o'u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang."

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

a) gweithio gydag Estyn er mwyn sicrhau bod eu hadolygiad o hanes Cymru yn rhoi ystyriaeth lawn i hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig Cymru a thu hwnt; a

b) sefydlu gweithgor i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu, ac adnabod bylchau yn yr adnoddau neu'r hyfforddiant presennol yn ymwneud â chymunedau, cyfraniadau a phrofiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Yn cytuno y dylai'r cwricwlwm newydd gefnogi pob dysgwr i ddysgu Cymraeg a Saesneg.

Cwricwlwm i Gymru – Y Dyniaethau – Canllawiau

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliannau 3 a 4 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 4, dileu is-bwyntiau 4(a) a 4(b) a rhoi yn eu lle:

hanes Cymru; hanesion y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon; a hanesion rhannau eraill o'r byd, a bod:

(i) pob un o'r uchod i gynnwys hanes pobl dduon a phobl o liw; a

(ii) pob un o'r uchod yn cael eu rhoi mewn cyd-destun;

addysgu sgiliau achub bywyd, fel y nodwyd yn flaenoriaeth gan y Senedd Ieuenctid.

**Gwelliant 4 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn cytuno y dylai'r cwricwlwm newydd gefnogi pob dysgwr i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan sicrhau bod cymorth ar gyfer dysgu Cymraeg yn ystyried yr effaith fanteisiol a geir eisoes yn sgil y ffaith bod dysgwyr o dan ddylanwad amgylcheddol amlycach i'r Saesneg.

**Gwelliant 5 – Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu ar gyfer dysgu Cymraeg a bod hyn yn cael ei ategu gan fuddsoddiad i sicrhau bod cyrsiau trochi dwys yn y Gymraeg ar gael yn rhwydd i athrawon a disgyblion fel ei gilydd.

**Gwelliant 6 – Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y cwricwlwm newydd i sicrhau bod pob disgybl yn dysgu iaith dramor fodern o flwyddyn 1 yn yr ysgol.

**Gwelliant 7 – Neil McEvoy (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai'r ffordd orau o roi'r cwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus yw drwy leihau maint dosbarthiadau i lai na 20 o ddisgyblion.

**Gwelliant 8 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i ailystyried y dyddiad cychwyn ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd i ddarparu ar gyfer oedi wrth ei baratoi oherwydd COVID-19.

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 8 Gorffennaf 2020

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 26/06/2020 i'w hateb ar 01/07/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ55394

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod gan Gymru'r adnoddau i ymdrin â phandemig yn y dyfodol?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2 OQ55393

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r sector hedfan yng Nghymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OQ55357

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith yr argyfwng coronafeirws ar economi Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ55369

**(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio prosiectau seilwaith i adfywio economi Cymru yn sgil Covid-19?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OQ55386

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnesau y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

6 OQ55364

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith y cyfyngiadau symud ar gyrhaeddiad addysgol yng Ngogledd Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

7 OQ55389

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y broses ddethol ar gyfer y panel arbenigol a fydd yn ystyried y cais i gael gwared ar y mwd sy'n cael ei garthu o'r tu allan i adweithydd niwclear Hinkley yn nyfroedd Cymru?

**Leanne Wood** *Rhondda*

8 OQ55387

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r dull o reoli llifogydd yn y Rhondda?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

9 OQ55388

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi twristiaeth?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

10 OQ55395

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ba mor effeithiol y bu'r ymateb cydlynol ar draws y DU i coronafirus?

**Carwyn Jones** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

11 OQ55390

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i fusnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ers yr achosion o Covid-19?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

12 OQ55391

**(e)**

Pa flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i hawliau plant i gael addysg yng ngoleuni'r mesurau iechyd cyhoeddus sydd eu hangen i fynd i'r afael â coronafeirws?

# Cwnsler Cyffredinol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55380

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ar effaith yr argyfwng Covid-19 ar hawliau dynol yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OQ55373

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwella mynediad plant at gymorth iechyd meddwl yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OQ55360

**(e)**

Pa sylwadau cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u gwneud ar ran Llywodraeth Cymru ynghylch strwythurau rhynglywodraethol o fewn y DU?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ55383

**(w)**

Pa gyngor cyfreithiol mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei ddarparu ar effaith y rheoliadau Covid-19 ar allu Llywodraeth Cymru i gylfawni ei pholisiau?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ55372

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch a yw ei hymateb i Covid-19 yn unol â deddfwriaeth hawliau dynol?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ55379

**(e)**

Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda swyddogion eraill y gyfraith ynghylch y camau cyfreithiol sy'n cael eu cymryd gan y menywod yn erbyn anghydraddoldeb pensiwn y wladwriaeth yn erbyn y newidiadau a wnaed i'w hawliau pensiwn gan Lywodraeth y DU?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

7 OQ55377

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am weithredu argymhellion Comisiwn Thomas ar Gyfiawnder yng Nghymru?

# Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ55374

**(e)**

Pa asesiad mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith Covid-19 ar ei pholisi trethu lleol?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ55361

**(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r £78 miliwn a glustnodwyd fel rhan o'r Gronfa Caledi Llywodraeth Leol o fewn y gyllideb er mwyn helpu awdurdodau lleol i reoli incwm a gollwyd o ganlyniad i Covid-19?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

3 OQ55385

**(e)**

Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod goblygiadau iechyd meddwl y pandemig Covid-19 yn cael eu cydnabod yn nyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

4 OQ55375

**(w)**

Pa ddyraniadau ychwanegol fydd ar gael yn ystod y cylch cyllideb presennol i gefnogi y darn olrhain o'r strategaeth profi olrhain diogelu?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

5 OQ55346

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog nodi'r cyllid ychwanegol a ddisgwylir o ganlyniad i wariant gan Lywodraeth y DU yn Lloegr mewn meysydd a ddatganolwyd i Gymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ55370

**(e)**

Pa ddyraniadau ychwanegol fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cylch cyllideb presennol i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

7 OQ55355

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith Covid-19 ar gyllidebau Cymru yn y dyfodol?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

8 OQ55353

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu grantiau rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer y sector di-elw yn ystod pandemig Covid-19?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

9 OQ55345

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i bolisi trethu Llywodraeth Cymru i gefnogi busnesau yng ngoleuni pandemig Covid-19?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ55365

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru yng Ngorllewin De Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

11 OQ55354

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith polisi caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru?

## Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

1 OQ55349

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddarparu diweddariad ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru i gyhoeddiadau Cymraeg lleol yn ystod y pandemig

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ55352

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo canolbarth Cymru fel cyrchfan i dwristiaid?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OQ55351

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twristiaeth yng Ngogledd Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ55367

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effeithiolrwydd darlledu yng Nghymru yn ystod pandemig Covid-19?

**Hefin David** *Caerffili*

**5** OQ55366

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ailgyflwyno chwaraeon awyr agored ar gyfer plant a phobl ifanc yn dilyn Covid-19?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**6** OQ55381

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael gyda busnesau Cymru ynghylch cysylltiadau masnach y DU yn y dyfodol?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**7** OQ55382

**(w)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith bil y cwricwlwm arfaethiedig ar yr iaith Gymraeg?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**8** OQ55368

**(e)**

Pa agweddau ar gysylltiadau rhyngwladol Cymru a allai gael eu cryfhau o ganlyniad i'r profiad o Covid-19?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**9** OQ55384

**(w)**

Pa gamau mae'r Gweinidog am eu cymryd i amddiffyn buddiannau busnesau Cymreig mewn unrhyw gytundebau masnach rhyngwladol ar ôl diwedd y cyfnod trosglwyddo gyda'r Undeb Ewropeaidd?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

**10** OQ55350

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o unrhyw risgiau i ddefnyddwyr a chynhyrchwyr yng Nghymru yn deillio o gytundeb masnach rhwng y DU a UDA?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

11 OQ55347

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailddechrau chwaraeon hamdden yng Nghymru?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OQ55358

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ynghylch hyrwyddo masnach ryngwladol fel rhan o'r broses Brexit?

# Comisiwn y Senedd

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ55359

**(e)**

Pa baratoadau y mae'r Comisiwn wedi eu rhoi ar waith o ran ymestyn masnachfraint etholiadau'r Senedd, er gwaethaf y pandemig coronafirus?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

2 OQ55356

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Comisiwn wedi'i wneud o effaith y gwaharddiadau symud ar arferion gwaith yn y dyfodol ar gyfer Aelodau'r Senedd a staff y Comisiwn?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

3 OQ55376

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am y trefniadau i gefnogi busnes y Senedd wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

4 OQ55371

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn roi arweiniad i Aelodau ar ailagor swyddfeydd etholaethol yn ddiogel?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

5 OQ55378

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am ei allu i ailagor ystâd Senedd Cymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6 OQ55363

**(e)**

Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gynyddu cymorth digidol i ganiatáu i staff y Comisiwn ehangu eu gallu i weithio gartref a gweithio o bell?